**MANYLEB PERSON:**
**PENNAETH YSGOL GYNRADD TAL Y BONT AC YSGOL GYNRADD CRAIG YR WYLFA**

| CATEGORI | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| 1. **Cymwysterau** | • Statws Athro/Athrawes Gymwysedig | • Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) |
| 2. **Profiad** | • Profiad diweddar a pherthnasol o rôl arweinyddiaeth o fewn addysg gynradd<br>• Profiad o fod yn arweinydd effeithiol<br>• Profiad addysgu llwyddiannus a helaeth | • Profiad diweddar fel pennaeth neu ddirprwy bennaeth/pennaeth gweithredol mewn ysgol gynradd<br>• Profiad o addysgu o fewn mwy nag un ysgol<br>• Profiad o addysg awyr agored (e.e. ysgol goedwig) |
| 3. **Datblygiad Proffesiynol** | • Tystiolaeth o roi datblygiad proffesiynol parhaus sy'n ymwneud â rheolaeth ag arweinyddiaeth ysgol, dysgu ac addysgu'r cwricwlwm ar waith<br>• Profiad o arwain/cydlynu cyfleoedd datblygu proffesiynol<br>• Y gallu i ddynodi eich anghenion dysgu eich hunan a chefnogi eraill i ddynodi eu hanghenion dysgu | • Profiad o weithio gydag ysgolion/sefydliadau/asiantaethau eraill neu glwstwr<br>• Profiad o weithio gyda grwpiau a sefydliadau cymunedol |
| 4. **Arweinyddiaeth Strategol** | • Y gallu i ddiffinio a rhannu gweledigaeth o addysg gynradd gan ysbrydoli a symbylu staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr<br>• Tystiolaeth o fod wedi trosi gweledigaeth ar lefel tîm neu ysgol gyfan yn realiti<br>• Tystiolaeth o strategaethau llwyddiannus ar gyfer cynllunio, gweithredu, monitro a gwerthuso er mwyn gwella'n barhaus<br>• Tystiolaeth o ddysgu oddi wrth ysgolion a chydweithwyr eraill<br>• Y gallu i ddadansoddi data/data cynnydd, datblygu cynlluniau strategol, gosod targedau a monitro/gwerthuso cynnydd<br>• Gwybodaeth ynghylch ansawdd mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysgol, nodweddion ysgolion effeithiol a strategaethau ar gyfer codi disgwyliadau ymysg dysgwyr a staff<br>• Tystiolaeth o fod wedi rhoi prosiect rheoli effeithiol ar waith<br>• Dealltwriaeth o hapusrwydd a lles disgyblion ac ymrwymiad i'w hybu a'u diogelu<br>• Y gallu i adnabod a chynnwys llais y disgyblion ym mhob agwedd berthnasol o'r ysgol<br>• • Y gallu i ddatblygu a gweithredu strategaethau effeithiol ac arloesol i gynnal a gwella recriwtio disgyblion | |
| 5. **Dysgu ac Addysgu** | • Tystiolaeth o feddu ar ddealltwriaeth o ofynion Cwricwlwm i Gymru, Rhaglen | |

| | | |
|---|---|---|
| | Trawsnewid ADY ar hyn o bryd ac yn y dyfodol<br>• Tystiolaeth o gynllunio cwricwlwm effeithiol<br>• Gwybodaeth a phrofiad o ystod o strategaethau dysgu ac addysgu llwyddiannus er mwyn bodloni anghenion **pob** dysgwr<br>• Dealltwriaeth gadarn o strategaethau asesu effeithiol a'r defnydd o asesu ar gyfer llunio'r camau dysgu nesaf<br>• Profiad o ddatblygu dysgu ac addysgu effeithiol<br>• Dealltwriaeth o nodweddion amgylchedd dysgu effeithiol<br>• Y gallu i arddangos cofnod profedig o atebolrwydd ymhob agwedd o reolaeth ysgol<br>• Y gallu i ddadansoddi, dehongli a chyflwyno data | |
| **6. Arwain a Rheoli Staff** | • Profiad o weithio gyda thimau o staff, o'u harwain a'u datblygu<br>• Y gallu i ddirprwyo gwaith a chefnogi cydweithwyr wrth iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau<br>• Profiad o reoli perfformiad a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus cydweithwyr<br>• Dealltwriaeth o gynllunio cyllideb effeithiol ac adleoli adnoddau er mwyn galluogi ysgol i gyflawni ei blaenoriaethau addysgol | • Profiad o weithio gyda llywodraethwyr i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau ysgol-gyfan |

| | | |
|---|---|---|
| **7. Sgiliau, Rhinweddau a Gallu** | • Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol mewn Cymraeg a Saesneg<br>• Bod yn agored i syniadau newydd drwy fod yn arloesol ac ysbrydoledig<br>• Disgwyliadau uchel o ran dysgu, cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr<br>• Disgwyliadau uchel ohonoch chi eich hunan ac o eraill<br>• Ymrwymiad cadarn i welliant ysgol<br>• Y gallu i fod yn frwdfrydig a chadarnhaol bob amser<br>• Y gallu i drefnu gwaith, blaenoriaethu tasgau, gwneud penderfyniadau a rheoli amser yn effeithiol<br>• Perthynas dda gyda dysgwyr a'r holl rhanddeiliaid<br>• Ymdeimlad o ofal a diddordeb ym mhob unigolyn<br>• Ymrwymiad cadarn i hyrwyddo yr iaith Gymraeg a'i diwylliant<br>• Parhau i hyrwyddo a chryfhau cysylltiadau cymunedol<br>• Gwerthoedd personol sy'n adlewyrchu cynhwysiad, lles a natur gymunedol yr ysgolion<br>• • Agwedd ddeinamig a rhagweithiol tuag at fynd i'r afael â heriau, materion a phryderon | |